



Eich cyf/Your ref P-05-984  
Ein cyf/Our ref JJ/01340/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Mehefin ynglŷn â Deiseb P-05-984: 'Stopiwch ymgynghoriadau o bell gwahaniaethol ar gyfer ceisiadau llosgydd yn ystod Pandemig Covid-19'.

Nodir y gofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC") yn y Gorchymyn DAC (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 a Rheoliadau DAC (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("y gweithdrefnau DAC").

Cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer DAC, mae'r gweithdrefnau DAC yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr darpar ymgynghori â ymgynghorwyr cymunedol ac arbenigol penodol, cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i berchnogion neu ddeiliaid tir sy'n ffinio â'r safle, arddangos hysbysiadau safle mewn o leiaf un lle ar y safle neu'n agos ato a rhoi hysbysiad mewn papur newydd lleol.

Ni ragnodir cyfarfodydd cyhoeddus na digwyddiadau galw heibio fel gofynion sylfaenol yn y gweithdrefnau DAC gan nad yw'n gymesur ar gyfer pob cais. O ganlyniad, nid oes unrhyw sail i atal cais am ganiatâd cynllunio rhag cael ei ddilysu lle na all yr ymgeisydd gynnal cyfarfod cyhoeddus neu ddigwyddiad galw heibio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod yr uchod yn wir mewn perthynas ag ymgynghori cyn-ymgeisio, cyhoeddwyd canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol gan y Prif Gynlluniwr ar 27 Mawrth i fynd i'r afael â'r sefyllfa ar ôl cyflwyno cais cynllunio DAC. Mae'r canllawiau'n cydnabod efallai na fydd partiön yn gallu ymateb i geisiadau i gyflwyno Adroddiadau Effaith Lleol na chymryd rhan yn yr ystyriaeth o geisiadau DAC, yn gyffredinol, mewn modd amserol. Mae'r gweithdrefnau DAC yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn yr amserlenni sy'n gysylltiedig ag unrhyw ofyniad ymgynghori neu gyflwyno, a bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn arfer y pwerau hynny yn briodol ar gais. Pan ganiateir estyniad o'r fath ac fydd yn debygol o fynd â'r cais y tu hwnt i'r amserlen 36 wythnos y mae'n rhaid penderfynu ar y cais DAC ynddo, bydd Gweinidogion Cymru yn atal y cyfnod penderfynu o 36 wythnos.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government